# ‘Darganfod’

CA2

Yn y sesiwn 1awr* hon bydd disgyblion yn ennill dealltwriaeth uniongyrchol o wrthrychau amgueddfa real a replica drwy archwilio yn annibynnol.

## Amcanion dysgu

Dylai disgyblion:

- Ddatblygu dealltwriaeth o amgueddfeydd a’u gwaith
- Dewis gwrthrych o’r casgliad yr hoffent ddysgu mwy amdano
- Defnyddio’r oriel i ddysgu mwy am y gwrthrych
- Creu eu label amgueddfa eu hunain ar gyfer y gwrthrych



## Cyswllt â’r cwricwlwm

Iaith, llenyddiaeth a chyfathrebu
Gwybodaeth a dealltwriaeth o’r byd
Datblygiad creadigol
Datblygu meddwl ar draws y cwricwlwm
Datblygu cyfathrebu ar draws y cwricwlwm

## Syniadau ar gyfer y Dosbarth

Rhai awgrymiadau ar beth i’w drafod a’i wneud gyda’r dosbarth cyn ac wedi’r ymweliad.

## Cyn ymweld



Cyn ymweld, byddai o fudd i chi siarad â’r dosbarth am amgueddfeydd, beth yw eu gwaith a beth sydd i’w weld yn yr amgueddfa hon, ac mewn amgueddfeydd ac orielau eraill maent wedi ymweld â nhw o’r blaen. Beth am ysgrifennu rhestr o’r pethau yr hoffech chi eu dysgu yn ystod yr ymweliad?

### Rhai geiriau fydd yn cael eu defnyddio yn ystod yr ymweliad:

Curadur, casgliad, archaeoleg, daeareg, hanes natur, celf

## Wedi ymweld

### Amgueddfa Fach

Gofynnwch os gall y disgyblion ddod â rhywbeth diddorol o adref i greu Amgueddfa Fach, e.e. rhywbeth o wyliau tramor neu ddiwylliant arall, pethau naturiol fel cragen fawr, neu hen bethau fel gêm neu hen luniau. Gofynnwch i’r disgyblion ysgrifennu eu labeli eu hunain yn esbonio pam fod eu gwrthrych yn ddiddorol neu’n bwysig.

## Amlinelliad Gweithdy

| Gweithgaredd | Disgrifiad | Amser |
|---|---|---|
| Gwaith cylch pan fyddwn yn darganfod beth mae’r disgyblion yn ei wybod yn barod am amgueddfeydd a’u gwaith. | Trafod pam na allwn ni drin gwrthrychau amgueddfa fel arfer. | 10 mun |
| Archwilio | Disgyblion yn archwilio casgliadau’r oriel gan ddefnyddio chwyddwydrau a microsgopau. | 20 mun |
| Dewis a labelu | Disgyblion yn dewis un gwrthrych o’r oriel, tynnu llun ohono a’i arddangos yn ‘Amgueddfa’r Dosbarth’. Defnyddio’r deunydd ymchwil yn yr oriel i greu label addurniadol i’r gwrthrych. | 20 mun |
| Amgueddfa’r Dosbarth | Wedi casglu pob un o’r gwrthrychau yn Amgueddfa’r Dosbarth caiff y disgyblion eu hannog i rannu eu hoff wrthrych â gweddill y dosbarth.<br>Iaith, llenyddiaeth a chyfathrebu | 5 mun |